OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2009 Rhif 1095 (Cy.98) (C.63)

PRIFFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Deddf Rheoli Traffig 2004 (Cychwyn Rhif 3) (Cymru) 2009

Gwnaed - - - -	*27 Ebrill 2009*
Yn dod i rym - -	*1 Mai 2009*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adran 99 o Ddeddf Rheoli Traffig 2004(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio ynddynt hwy(**2**), yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

RHAN 1

CYFFREDINOL

Enwi, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Rheoli Traffig 2004 (Cychwyn Rhif 3) (Cymru) 2009 ac mae'n gymwys o ran Cymru.

(2) Yn y Gorchymyn hwn —

ystyr "Deddf 2004" ("*the 2004 Act*") yw Deddf Rheoli Traffig 2004.

Cychwyn darpariaethau

2. 1 Mai 2009 yw'r diwrnod penodedig ar gyfer dwyn i rym ddarpariaethau canlynol Deddf 2004 —

(a) Adrannau 1 i 12;

(b) Adran 13 (i'r graddau y mae'n ymwneud â chaffael tir yng Nghymru gan Weinidogion Cymru)(**3**);

(**1**) 2004 p.18.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Ddeddf Rheoli Traffig 2004 i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (2006 p.32).

(**3**) Trosglwyddwyd pwerau o dan adran 245A o Ddeddf Priffyrdd 1980 (1980 p.66) i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Trosglwyddwyd pwerau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (2006 p.32).